

Tiwtor Soddgrwth y Conservatoire Iau Cyfradd fesul awr: hyd at £37.98 yr awr gan gynnwys tâl gwyliau

Mae Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru yn chwilio am chwaraewr ac athro soddgrwth o'r radd flaenaf i weithio fel rhan o'i Gonservatoire Iau a'i gynllun gwersi Cymunedol. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn ymroddedig iawn i ysbrydoli cerddorion ifanc a/neu oedolion amatur i gyflawni eu potensial cerddorol llawn ac yn gallu gweithio ar y cyd â myfyrwyr, cydweithwyr a rhieni mewn amgylchedd addysg celfyddydau perfformio prysur.

Wedi'i leoli yng Nghaerdydd, bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn dangos ymrwymiad cryf i weithio gyda phlant a phobl ifanc, y gallu i ysbrydoli a'r sgiliau i weithio'n gydweithredol ac yn rhagweithiol o fewn amgylchedd addysg celfyddydau perfformio prysur.

Mae Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru (CBCDC) yn fan i bawb, ac rydym yn croesawu ceisiadau gan bobl o bob cefndir a phrofiad. Mae'r Coleg yn denu'r doniau creadigol gorau o bob rhan o'r byd. Fel conservatoire cenedlaethol Cymru, rydym yn tanio dychymyg ac yn ysgogi arloesedd, gan gynnig hyfforddiant i bron i 1000 o actorion, cerddorion, cynllunwyr, technegwyr a rheolwyr yn y celfyddydau o dros 30 o wledydd. Cyfunir doniau a photensial rhyfeddol ein myfyrwyr gydag addysgu eithriadol a chysylltiadau digyffelyb â'r diwydiant, i wireddu breuddwydion. Mae uchelgais a chydweithio creadigol yn ganolog i'n rhagoriaeth.

Rydym wedi ymrwymo i greu gweithlu sy'n cynrychioli cymdeithas. Ar hyn o bryd, mae pobl o gymunedau ethnig amrywiol, y rheini sy'n hunan-nodi fel anabl ac unigolion niwroamrywiol a thrawsryweddol yn cael eu tangynrychioli, felly rydym yn awyddus i glywed gan ymgeiswyr o'r grwpiau hyn.

Rydym wedi ymrwymo i ddiogelu a hyrwyddo lles plant, pobl ifanc ac oedolion ac rydym yn disgwyl i'n holl staff a gwirfoddolwyr rannu'r ymrwymiad hwn.

Swydd rhan amser, barhaol yw hon. Clustnodir eich oriau addysgu i chi.

Rydym yn cynnig nifer o fuddion i gyflogeion sy'n cynnwys cynllun pensiwn rhagorol ac rydym yn gweithredu system weithio hyblyg.

Os ydych yn ymgeisydd llwyddiannus, a'r swydd hon fydd eich rôl gwasanaethau proffesiynol gyntaf yn y Brifysgol (neu os ydych yn cael eich cyflogi gan PSS Ltd ar hyn o bryd), fe'ch cyflogir gan Professional and Support Services Limited, is-gwmni ym mherchnogaeth Iwyr Prifysgol De Cymru, sy'n darparu gwasanaethau i'r Brifysgol a Cholegau. Os ydych yn ymgeisydd gwasanaethau proffesiynol mewnol, o Goleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru, byddwch yn parhau i gael eich cyflogi gan Goleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru.

I gael sgwrs anffurfiol am y swydd cysylltwch â patricia.keir@rwcmd.ac.uk

Dyddiad cyfweiliad: I'w gadarnhau, wythnos yn dechrau 25 Gorffennaf 2022

Gwnewch gais ar-lein <https://www.rwcmd.ac.uk/who-we-are/careers>

OUR VALUES

Expert AND Inclusive

Contemporary AND Collaborative

Resourceful AND Responsible

Swydd	Tiwtor Soddgrwth y Conservatoire Iau
Adran	Conservatoire Iau
Darparu gwasanaethau i	Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru
Gradd a chyflog	Hyd at £37.98 yr awr gan gynnwys tâl gwyliau
Oriau gwaith	Rhan amser. Clustnodir eich oriau addysgu i chi.
Hyd y contract	Parhaol
Adrodd i	Pennaeth y Conservatoire Iau

Diben y Swydd

Mae'r Conservatoire Iau yn rhan lewyrchus o Gonservatoire Cenedlaethol Cymru. Mae'n ganolfan ragoriaeth ar gyfer hyfforddi cerddorion ifanc dawnus rhwng 8 a 18 oed a, thrwy'r Cwrs Uwch, mae'n cynnig yr unig hyfforddiant o'i fath yng Nghymru, gan drochi myfyrwyr mewn amgylchedd celfyddydau perfformio arbenigol lle gallant elwa gan addysg gerddorol ddwys a chyfannol. Rydym yn chwilio am gerddor ac athro o'r radd flaenaf i weithio fel rhan o'r Conservatoire Iau.

Cyfrifoldebau Allweddol

Mae Tiwtoriaid y Conservatoire Iau a'r Rhaglen Gymunedol yn atebol i Bennaeth y Conservatoire Iau, sef eu rheolwr llinell uniongyrchol. Mae'n ofynnol i bob aelod o staff ymddwyn mewn modd proffesiynol, cydweithredol a hyblyg, yn unol ag anghenion y swydd a'r Coleg.

Prif Ddyletswyddau a Chyfrifoldebau

Addysgu

- Addysgu a hyfforddi i'r safonau uchaf, gan osod gwaith technegol a repertoire sy'n briodol i oedran, gallu a photensial myfyrwyr, yn unol ag unrhyw feysydd llafur perthnasol.
- Hyrwyddo datblygiad sgiliau technegol a cherddorol effeithiol, gan arwain technegau ymarfer effeithlon ac annog dysgu rhagweithiol
- Cyflwyno a pharatoi myfyrwyr ar gyfer arholiadau mewanol ac allanol, cyngherddau, datganiadau, clyweliadau ac asesiadau fel y bo'n briodol
- Cwblhau adroddiadau cynnydd yn ysgrifenedig ac ar lafar yn ôl y gofyn
- Cymryd rhan mewn paneli clyweliad ac asesu yn ôl yr angen
- Cyfrannu at ddatblygu adrannol a recriwtio yn ôl yr angen
- Cydymffurfio â holl weithdrefnau'r adran, gan gynnwys y rheini sy'n ymwneud â diogelu, a chyfrannu at ddiwylliant o ddiogelwch a lles i bawb o fewn yr adran.

Arall

- Cydgyssylltu'n broffesiynol â myfyrwyr, rhieni/gofalwyr a chydweithwyr
- Mynychu cyngherddau myfyrwyr a chyfarfodydd adrannol yn ôl yr angen
- Cyflawni unrhyw ddyletswyddau rhesymol eraill ar gais Pennaeth y Conservatoire Iau a/neu'r Prifathro

Nid yw'r dyletswyddau a'r cyfrifoldebau uchod yn gyfyngedig nac yn hollgynhwysfawr a bydd gofyn i ddeiliad y swydd ymgymryd â dyletswyddau a chyfrifoldebau y gellir yn rhesymol eu disgwyl o bryd i'w gilydd o fewn cwrpas a gradd y swydd.

OUR VALUES

Expert AND Inclusive

Contemporary AND Collaborative

Resourceful AND Responsible

Cyfrifoldebau Allweddol

Amodau Cyffredinol

Rhaid i ddeiliad y swydd dderbyn cyfrifoldeb am sicrhau y cedwir at y polisiau a'r gweithdrefnau sy'n ymwneud ag Iechyd a Diogelwch – gan gynnwys diogelu – yn y gweithle bob amser.

Rhaid i ddeiliad y swydd ddod yn gyfarwydd â pholisiau, gweithdrefnau a chanllawiau'r Coleg, a chadw atynt, a rhaid iddo/iddi bob amser gyflawni ei gyfrifoldebau gan roi sylw dyledus i Ddatganiad Cyfle Cyfartal /ymrwymiad i gydraddoldeb y Coleg.

Manyleb Person

Er mwyn gallu ymgymryd â'r rôl hon yn effeithiol bydd angen i chi fod â'r priodweddau a'r sgiliau allweddol a amlinellir isod. Wrth lenwi eich cais cofiwch wneud yn siŵr eich bod yn dangos sut yr ydych yn bodloni'r meini prawf hyn:

1	Gradd(au) perthnasol mewn cerddoriaeth, neu gymhwyster cyfatebol *
2	Profiad proffesiynol profedig mewn maes arbenigol *
3	Profiad sylweddol o addysgu plant a phobl ifanc*
4	Gwybodaeth am arferion addysgu cyfredol mewn maes arbenigol*
5	Cymhwyster addysgu priodol
6	Profiad o addysgu mewn lleoliad cerddoriaeth arbenigol a/neu ar lefel Addysg Uwch
7	Y gallu i ysgogi ac ysbrydoli*
8	Y gallu i gyfathrebu'n effeithiol - ar lafar ac yn ysgrifenedig - gan gynnwys rhoi adborth adeiladol*
9	Sgiliau rhyngbersonol da, a'r gallu i weithio fel rhan o dîm*
10	Sgiliau trefnu da*
11	Yn ddelfrydol, y gallu i gyfathrebu (ar lafar ac yn ysgrifenedig) yn Gymraeg. Bydd y Coleg yn cefnogi unrhyw anghenion hyfforddi neu ddatblygu yn hyn o beth.
12	Ymrwymiad amlwg i gyfrannu at werthoedd craidd y Coleg o degwch, urddas, a pharch, a dathlu amrywiaeth, cydraddoldeb a chynhwysiant pobl o bob sector o gymdeithas

Goruchwyliaeth Iechyd

Er mwyn gwneud yn siŵr na effeithir yn anffafriol ar iechyd cyflogaion, ac er mwyn bodloni ei rwymedigaethau dyletswydd gofal a chyfreithiol, mae gan y Coleg system o wiriadau goruchwyliaeth iechyd pan fo angen. Mae Goruchwyliaeth Iechyd yn ofyniad cyfreithiol tra'n gweithio mewn amgylchedd swnllyd, defnyddio offer dirgrynu neu lle defnyddir sylweddau peryglus ac mae hefyd yn angenrheidiol pan nodir hynny drwy asesiad risg. Mae eich rôl wedi'i nodi fel un sy'n gofyn am oruchwyliaeth iechyd, felly gwneir trefniadau ar y cyfnodau priodol i chi gymryd rhan yn y broses goruchwyliaeth. A fydddech cystal â nodi bod eich cydweithrediad mewn cymryd rhan yn y broses a chaniatáu i ni gael ein llywio gan ganfyddiadau'r oruchwyliaeth yn orfodol.

Iechyd a Diogelwch

Eich cyfrifoldeb chi yw ymgyfarwyddo a chydymffurfio â Pholisiau a Gweithdrefnau Iechyd a Diogelwch y sefydliad. Rhaid i chi hefyd fod yn gwbl gyfarwydd â'ch cyfrifoldebau iechyd a diogelwch a amlinellir yn y ddogfen Trefniadau Rheoli Iechyd a Diogelwch Cyfadran/Adran a'u gweithredu yn unol â hynny.

OUR VALUES

Expert AND Inclusive

Contemporary AND Collaborative

Resourceful AND Responsible

Ymrwymedig i fod yn Hyderus o ran Anabledd – Cynnig cyfweliad

Mae Professional and Support Services Limited wedi ymrwymo i gyflogi gweithlu amrywiol a chreu amgylchedd cynhwysol lle gall staff fod yn hwy eu hunain a lle caiff pob unigolyn ei drin ag urddas, tegwch a pharch. Rydym yn croesawu ymgeiswyr o amrywiaeth o gefndiroedd a chymunedau, yn arbennig o ran oedran, anabledd, rhywedd, hunaniaeth rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, hil a chrefydd neu gred. Rydym yn gwarantu y bydd pob ymgeisydd anabl sy'n bodloni'r holl feini prawf allweddol ar gyfer y swydd wag y maent yn ymgeisio amdani yn cael cynnig cyfweliad. Nodir y meini prawf allweddol gyda * yn y fanyleb person uchod.

OUR VALUES

Expert AND Inclusive

Contemporary AND Collaborative

Resourceful AND Responsible